



## **Sut i ysgrifennu enwebiad Gwobr Ysbrydoli! llwyddiannus**

Yr allwedd i ysgrifennu enwebiad da yw rhoi gwybodaeth benodol i'r Panel Dethol ar sut y cafodd llwyddiannau dysgu yr unigolyn, grŵp neu sefydliad effaith gadarnhaol ar eu bywyd, eu teuluoedd, eu cymunedau neu ddatblygu busnes eu sefydliad.

Mae enwebiadau a ysgrifennwyd yn dda yn fwy deniadol i'r Panel Dethol:

- Defnyddio brawddegau byr sy'n gryno ac yn rhoi manylion penodol gan gadw'r enwebiad yn fyr. Gall gormod o wybodaeth heb fod yn berthnasol i'r meini prawf fod yn niweidiol. Ansawdd, nid maint, yw'r nod.
- Cefnogi'r enwebiad gyda'ch sylwadau eich hun, yn ogystal â gwybodaeth ansoddol a meintiol.
- Rhoi trosolwg cyflawn o lwyddiannau'r dysgwr, grŵp neu sefydliad a enwebir. Mae'n bwysig dweud eu stori fel y byddech yn gwneud hynny i rywun nad yw'n eu hadnabod.
- Darllen y meini prawf yn ofalus:
  - Gwneud yn siŵr eich bod yn enwebu'r unigolyn, grŵp neu sefydliad ar gyfer y wobr briodol.
  - Dynodi o leiaf un neu fwy o feini prawf y gwobrau a ddangoswyd gan y sawl a enwebir, ac yna esbonio sut yr oedd y llwyddiant yn rhagorol.
  - Dylai enwebiadau fod ar gyfer unigolion, grwpiau neu sefydliadau am weithredoedd sydd 'goruwch a thu hwnt' i'w dyletswyddau, fel y'u disgrifir yn eu cyfrifoldebau dydd i ddydd.
  - Gofyn am eglurhad os ydych yn aneglur am y meini prawf.

### ***Yr hyn yr edrychwn amdano yn y sawl a enwebir:-***

- Anawsterau a gafodd eu goresgyn a'r aberth y gellid bod wedi'i wneud
- Ysbrydoli eraill i ddychwelyd at neu fynd ati i ddysgu
- Gwella eu bywydau a/neu fywydau pobl eraill
- Sicrhau profiad cadarnhaol neu newid bywyd o addysg oedolion
- Llwyddiannau academaidd, proffesiynol a phersonol

## **Cyngor da ar ysgrifennu eich enwebiad:-**

### **Teipio eich enwebiad mewn dogfen Word yn gyntaf:**

Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i chi wirio a chywiro eich enwebiad cyn copïo a gludo i'r ffurflen. Bydd hyn yn arbed amser ac yn eich galluogi i gyfleu eich neges yn gliriach.

### **Bod yn fanwl:**

Os nad ydych yn adnabod y person yr ydych yn ei enwebu, rhowch gymaint o fanylion ag y gallwch yn cynnwys manylion cyswllt, lle'n bosibl. Gofynnwch am wybodaeth gan bobl eraill i gryfhau'r enwebiad. Disgrifiwch nodweddion unigryw sy'n fwy na dweud yn unig fod y sawl a enwebir yn berson gwych neu neis.

### **Dewis y categori cywir:**

Darllenwch ddiffiniadau'r categori i benderfynu pa un sy'n adlewyrchu orau llwyddiannau'r sawl a enwebwch. Meddyliwch pa fath o weithgaredd dysgu a/neu swyddi y maent wedi rhagori. Nid yw nifer yr enghreifftiau mor bwysig â sicrhau fod cyfraniadau'r sawl a enwebir yn cyfateb meini prawf y wobr.

### **Dangos eu holl llwyddiannau:**

Hyd yn oed os yw ein sefydliad yn adnabod y person a enwebwch yn dda, dylech ddal i ddangos eu llwyddiannau mor fanwl ag sydd modd. Ceisiwch roi sylw i gymeriad y sawl a enwebwch a'r hyn a wnaethant pan fyddwch yn llenwi eich cais. Ni ddylech byth dybio y bydd pawb yn gwybod am y sawl a enwebwch.

### **Rhoi enghreifftiau da:**

Esboniwch bob amser sut y mae'r sawl a enwebwch wedi sicrhau llwyddiant mewn dysgu. Peidiwch dweud pethau fel "Mae'r enwebai wedi gweithio'n galed i ddysgu"; esboniwch yr hyn a wnaeth yr enwebai gan roi tystiolaeth o hynny.

### **Esbonio'n gywir:**

Pwy ydynt, beth yn union y maent wedi'i wneud a'i ddysgu, beth oedd canlyniadau eu dysgu a pham eu bod yn haeddu Gwobr Ysbrydoli!.

### **Gwybodaeth gefndir:**

Gellir cyflwyno dogfennau cefnogi fel rhan o'ch enwebiad. Gallwch anfon dolenni gwefan, lluniau, erthyglau newyddion, dolenni cyfryngau cymdeithasol a Llythyrau Cefnogaeth. Peidiwch ag anfon eitemau gwreiddiol gan na allwn eu dychwelyd i gyd.

## **Na i Enwebiadau Lluosog:**

Peidiwch enwebu'r un person fwy nag unwaith yn yr un categori. Ni fydd enwebiadau lluosog yn newid y canlyniad.

## **Dilysu'r holl wybodaeth yn yr enwebiad:**

Dylid gwirio enwebiadau yn ofalus i ddilysu fod yr holl wybodaeth a gyflwynir yn gywir.

## **Acronymau:**

Sicrhewch y caiff yr holl acronymau eu manylu a'u diffinio'n gywir, heblaw am acronymau cyffredin

## ***Sut i strwythuro eich enwebiad:-***

### **Datganiad Agoriadol:**

Cychwynnwch gyda datganiad clir, uniongyrchol a phenodol o pam fod y sawl a enwebir yn haeddu ennill Gwobr Ysbrydoli! Cynhwyswch ddigon o wybodaeth i'r panel ddod yn gyfarwydd gyda'r heriau penodol oedd yn wynebu'r sawl a enwebir, y dysgu a wnaethant a'r canlyniadau neu'r nodau a gyflawnwyd. Rhestrwch yr wybodaeth bwysicaf yn yr ychydig frawddegau cyntaf ac yna manylwch fel sydd angen.

### **Cyfiawnhad:**

Hyd yn oed er bod y cyfiawnhad yn gryno, ni ddylai fod yn amwys. Osgowch ddefnyddio datganiadau cyffredinol bras a gwneud i bob brawddeg gyfrif. Mae'r panel dethol yn dibynnu ar eich geiriau i roi darlun ffeithiol a chadarnhaol o lwyddiannau dysgu'r sawl a enwebwch. Bydd esbonio ymddygiad manwl a rhoi enghreifftiau penodol yn ei gwneud yn amlwg pan fo rhywun yn haeddu cael cydnabyddiaeth.

### **Datganiadau Cefnogi:**

Cefnogwch y datganiad agoriadol gydag enghreifftiau penodol sy'n trin meini prawf y wobr ac yn ymhelaethu pam fod llwyddiannau'r sawl a enwebir yn haeddu'r wobr. Cynhwyswch nodweddion sy'n gwneud y person yma'n eithriadol ac sy'n amlwg yn berthnasol i feini prawf y wobr. Ystyriwch gynnwys '*Beth mae'r sawl a enwebir wedi ei wneud?*', '*Sut y gwnaethant hynny?*' a '*Beth oedd y canlyniadau a/neu effaith?*' yn eich datganiadau cefnogi.

### **Datganiad Cloi:**

Disgrifiwch beth yw barn pobl eraill am y sawl a enwebir (e.e. cyd-ddysgwyr, tiwtoriaid neu gyflogeion a chyflogwyr). Gallai sôn am wobrau neu lwyddiannau eraill gadarnhau hyn.